

## **RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Iau, 9 Mai 2024.**

*[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.*

*Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllodiad o'r gweithgareddau].*

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Neville Evans,  
T LI Hughes MBE, R LI Jones, Jackie Lewis,  
Dafydd Roberts, Alwen Pennant Watkin, Robin Williams a  
Liz Wood

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Jeff M Evans a John Ifan Jones

**Hefyd yn bresennol:** Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Alun Roberts a Gary Pritchard  
(ar gyfer ceisiadau 12.1 a 12.2)

1:00 y. p. tan 1:25 y. p.

<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</b>
<b>PENDERFYNIAD</b>	Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>4 YMWELIADAU SAFLE</b>
<b>PENDERFYNIAD</b>	Dim ymweliadau safle.
<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO</b>
<b>PENDERFYNIAD</b>	Ni ystyriwyd unrhyw faterion o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>7 CEISIADAU'N CODI</b>

PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/2023/61 – Cais llawn ar gyfer newydd defnydd tir amaethyddol i fod yn safle cabanau gwyliau er mwyn lleoli 13 o gabanau gwyliau, adeiladu ffordd newydd ar y safle, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar tir yn Taldrwst, Lôn Fain, Dwyrân.</p> <p><b>Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a nodwyd.</b></p>
--------------	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 CEISIADAU ECONOMAIDD</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw faterion o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw faterion o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 CEISIADAU'N GWYRO</b>
PENDERFYNIAD	<p>10.1 Cais llawn i drosi 33 llain carafannau teithiol tymhorol i 18 o garafannau gwyliau deithiol i leoli 18 carafán statig, gosod pecyn trin carthffosiaeth ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Tŷ Hen Caravan Park, Rhosneigr</p> <p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</b></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw faterion o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>12 GWEDDILL Y CEISIADAU</b>
PENDERFYNIAD	12.1 FPL/2023/118 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir i leoli 55 o garafannau/cabanau gwyliau sefydlog, newid defnydd yr adeilad allanol i lle

	<p>golchi dillad, derbynfa a swyddfa ynghyd a adeiladu ffyrdd newydd ar y safle, codi adeilad trin carthffosiaeth, adeiladu maes parcio, gwaith tirlunio meddal a chaled a gwaith cysylltiedig yn Wern Farm, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy.</p> <p><b>Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a nodwyd.</b></p> <p>12.2 FPL/2023/328 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd y capel i fod yn 3 uned gwyliau ynghyd ag addasu ac ehangu yn Capel Jerusalem, Llangoed.</p> <p><b>Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a nodwyd.</b></p> <p>12.3 FPL/2024/28 – Cais llawn i leoli dau gynhwysydd i'w defnyddio fel hwb cymunedol yn Maes Chwarae Gwalchmai, Maes Meurig, Gwalchmai</p> <p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</b></p>
--	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>13 MATERION ERAILL</b>
PENDERFYNIAD	<p>13.1 DAG/2024/4 – Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau ar dir yn Marian, Llanddeusant</p> <p><b>Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.</b></p>